**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 GORFFENNAF**

**Report by:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Subject:** Adroddiad Blynyddol GwE 2019-20

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2019-20.

## 2.0 Cefndir

2.1 Fel y datgenir yng Nghytundeb Rhyng–Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol am berfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni Swyddogaethau'r Gwasanaeth a'r Nodau Allweddol.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Ynghlwm, cyflwynir yr adroddiad blynyddol sydd yn rhoi trosolwg o'r meysydd a ganlyn: safonau, y blaenoriaethau a'r ddarpariaeth ranbarthol, cyfraniad y gwasanaeth i'r daith ddiwygio, gweithio mewn partneriaeth a materion busnes.

3.2 Adnabuwyd y prif feysydd sydd angen eu datblygu o drefn hunan arfarnu'r gwasanaeth ac mae'r rhain wedi eu cynnwys yn ein Cynllun Busnes. Cymeradwywyd y Cynllun Busnes a'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer 2020-2023 yng nghyfarfod o'r Cyd-bwyllgor ar 26 Chwefror 2020.

3.3 Mewn ymateb i COVID-19, ar 23 Mawrth 2020, newidiwyd pwrpas ysgolion, i gefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus. Mae GwE hefyd wedi addasu ac adolygu'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r ffrydiau gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogi ein holl ysgolion. Ein prif flaenoriaethau a ffrydiau gwaith yn ystod y cyfnod yma yw:

- Cam 1: Cyn y cyfnod clo
- Cam 2: Cefnogi ysgolion ar ddechrau'r cyfnod clo
- Cam 3: Dysgu o Bell
- Cam 4: Cefnogi ysgolion i ailagor
- Cam 5: Dysgu Cyfunol

Mae crynodeb o'r gweithgareddau, deilliannau a'r effaith wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad 'Rhaglen waith GwE'.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori â wnaed**

8. 1 Ymgynghorwyd â Grwpiau Defnyddwyr GwE, Byrddau Ansawdd Sirol, Fforymau Strategol Penaethiaid, Bwrdd Rheoli GwE a'r Cydbwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Adroddiad Blynyddol GwE 2019-20

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Mae rhan 5 o’r adroddiad yn egluro “nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn” gan fydd “GwE yn gweithredu o fewn ei adnoddau ariannol presennol”.  O ganlyniad, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.